Canolfan Cymru ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil

GWASANAETHAU CLERCIO CYRFF LLYWODRAETHOL YNG NGHYMRU

Canolfan Cymru ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil
Ysgol Addysg Abertawe, Athrofa Addysg Uwch Abertawe,
Heol Townhill, Abertawe, SA2 0UT
Ffôn: 01792 481245 / 01792 481272 Ffacs: 01792 481256

Mehefin 2005

1 RHAGARWEINIAD

1.1 Comisiynwyd yr astudiaeth hon, a gyflawnwyd gan Ganolfan Cymru ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn "ymchwilio i'r darpariaethau hyfforddi presennol ar gyfer clercod (corff llywodraethol)". Amcan yr astudiaeth oedd darparu sylfaen o wybodaeth a ellid ei defnyddio er mwyn gwneud "argymhellion ynghylch darparu rhaglen hyfforddi clercod gydlynol a chynhwysfawr i'w defnyddio gan AALlau yng Nghymru".

1.2 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn mynnu bod cyfarfodydd cyrff llywodraethol llawn yn cael eu clercio, a hefyd y pwyllgorau statudol, h.y. y pwyllgor diswyddo staff, y pwyllgor apeliadau diswyddo staff, y pwyllgor disgyblu disgyblion, a'r pwyllgor derbyn. Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i glercio pwyllgorau anstatudol. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau newydd yn debygol o ganiatáu i gyrff llywodraethol ddirprwyo mwy o waith i bwyllgorau os dymunant. Os yw hyn yn digwydd, bydd angen clercio'r fath bwyllgorau er mwyn sicrhau bod gwaith y corff llywodraethol yn rhedeg yn effeithiol ac i ddatblygu mewnbwn y corff llywodraethol i wella ysgolion.

Ar hyn o bryd, mae yna amrywiaeth eang o arferion clercio cyrff llywodraethol ar draws yr AALlau yng Nghymru. Yn yr AALlau lle mae clercio yn cael ei ddarparu gan swyddogion AALl, mae'r tâl gan ysgolion i'r AALl am y gwasanaeth hwn wedi'i seilio ar Gytundebau Lefel Gwasanaeth sy'n rhestru'r gwasanaethau a ddarperir, ynghyd â'r costau. Seilir y costau hyn ar y nifer o gyfarfodydd sy'n cael eu clercio ac ar hyd y fath gyfarfodydd. Mae tystiolaeth hefyd for clercod AALl, yn ogystal â chymryd cofnodion, yn gallu cynnig cyngor ar faterion gweithredol a gallant naill ai gynghori ar faterion cyfreithiol neu fydd ganddynt fynediad i wybodaeth sy'n gallu helpu cyrff llywodraethol gyda materion cyfreithiol, ac y mae rhai yn gwneud hyn hyd yn oed os nad yw'n ymddangos yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

Rhaid i gyrff llywodraethol ysgol nad ydynt yn defnyddio clercio AALl, neu sydd mewn AALlau nad ydynt yn darparu gwasanaeth clercio, ddarparu eu clercod eu hunain. Yn yr achos hwn, mae'r lefel o wasanaeth a ddarperir gan glercod yn amrywio o gymryd cofnodion yn unig, i gymryd cofnodion a hefyd rhoi cyngor ar faterion gweithredol, yn ddibynnol ar ddisgrifiad swydd y clerc a gallu a phrofiad y clerc.

Mae rôl clerc y corff llywodraethol fel un sy'n cymryd cofnodion cywir, cynghorydd i'r Cadeirydd ar faterion gweithredol, ac o bosibl yn gallu darparu cyngor ar faterion cyfreithiol yn cael ei gydnabod yn fwyfwy, ac yr un pryd, mae'n amlwg bod angen hyfforddiant addas ar glercod os ydynt yn mynd i gyflawni'r swyddogaethau hyn yn effeithiol er mwyn cynorthwyo cyrff llywodraethol i weithredu yn effeithiol ac yn effeithlon.

1.3 Seilir y casgliadau o'r astudiaeth hon ar wybodaeth o:

- Arolwg drwy holiadur (Atodiad 1) a anfonwyd at y Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr ym mhob un o'r 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru yn Nhachwedd 2003.
- Ymateb Penaethiaid i gais am eu syniadau ar y rôl a phwysigrwydd clercod corff llywodraethol ym Mai 2004. Derbyniwyd pump ymateb.

- Ymchwil a wnaed gan Swyddogion Datblygu Llywodraethwyr Cymru gyda llywodraethwyr mewn ysgolion yng Nghymru yn ystod gaeaf 2003-4.

1.4 Rhennir yr astudiaeth hon yn ddwy adran:

Mae Rhan 3 (tudalennau 4 i 10) yn ystyried darpariaeth y gwasanaeth gan AALlau sy'n clercio cyrff llywodraethol ysgol.

Mae Rhan 4 (tudalennau 11 i 14) yn ystyried darpariaeth y gwasanaeth gan AALlau nad ydynt yn darparu gwasanaeth clercio i ysgolion, neu lle nad yw ysgolion yn derbyn eu cynnig o'r fath ddarpariaeth.

2 DARPARIAETH CLERCIO I GYRFF LLYWODRAETHOL

2.1 O'r 22 o AALlau yng Nghymru, mae 4 yn darparu gwasanaeth clercio ar gyfer pob un o'u hysgolion; mae yna 7 nad ydynt yn darparu gwasanaeth clercio o gwbl (y rheswm pennaf am hyn yw staffio o fewn yr AALl); tra bod 11 yn darparu gwasanaeth clercio ar gyfer rhai ysgolion yn unig.

Yn y grŵp olaf hwn, mae'r rhan fwyaf o'r 11 o AALlau yn cynnig gwasanaethau clercio i ysgolion, ond nid yw eu cynnig yn cael ei dderbyn bob amser gan fod rhai ysgolion yn gwneud eu trefniadau eu hunain. Mewn un awdurdod, er enghraifft, mae pob ysgol yn prynu gwasanaeth clercio'r AALl, ac eithrio dwy ysgol uwchradd wirfoddol a gynorthwyir a dwy ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir. Mewn un arall, mae'r AALl yn clercio pob corff llywodraethol, ac eithrio 1 ysgol gynradd a 6 ysgol gyfun (yn ôl yr AALl, mae'r rheswm am hyn yn hanesyddol ac yn dyddio yn ôl i'r adeg cyn aildrefnu llywodraeth leol); mewn trydydd awdurdod yr ysgolion cynradd cymunedol yn unig sy'n cael eu clercio gan yr AALl, er bod ysgolion cynradd gwirfoddol yn gwneud eu trefniadau eu hunain hefyd.

2.2 Y nifer o AALlau sy'n darparu gwasanaeth clercio i bob un o'u hysgolion 4

Y nifer o AALlau sy'n darparu gwasanaeth clercio i rai o'u hysgolion 11

Y nifer o AALlau nad ydynt yn darparu gwasanaeth clercio ar gyfer unrhyw un o'u hysgolion

3 AALlau SY'N DARPARU GWASANAETH CLERCIO I'W CYRFF LLYWODRAETHOL YSGOLION

3.1 PERSONÉL

3.1.1 Personél yn y 4 AALl sy'n darparu gwasanaeth clercio ar gyfer pob un o'u hysgolion

Mae'n anochel bod y 4 AALl yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth clercio i bob un o'u hysgolion yn gorfod dibynnu yn y maes hwn ar gyfraniad gan swyddogion nad ydynt yn aelodau o'r Tîm Cefnogi Llywodraethwyr, er bod pob un o'r swyddogion a ddefnyddir fel clercod corff llywodraethol gan yr holl AALlau yng Nghymru yn aelodau o'r Adran Addysg.

Mae gan un AALl sy'n derbyn y fath gefnogaeth 17 o swyddogion (gan gynnwys Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr) yn clercio cyfarfodydd llywodraethwyr. Mae gan ail AALl gyfanswm o 25 o swyddogion sy'n ymwneud â chlercio, 22 gan drydedd, tra bo'r bedwaredd yn defnyddio 10 o swyddogion. Mae'n ddiddorol i nodi fod yr AALl olaf hwn wedi cyflogi dau aelod o staff ychwanegol rhan-amser yn benodol er mwyn clercio cyrff llywodraethol, ac y mae'r rhain yn cael eu talu am yr oriau pan fyddant yn gweithio. Ar hyn o bryd, mae un o'r gweithwyr rhan-amser hyn yn clercio mewn tair ysgol ac y mae'r llall (penodiad diweddar) yn clercio mewn un ysgol.

Gellir gweld y nifer o gyrff llywodraethol a glerciwyd gan staff AALl o ganlyniad i'r trefniadau hyn yn Nhabl 1:

Tabl 1: Y nifer o gyrff llywodraethol a glerciwyd gan staff AALl mewn AALlau sy'n darparu clercio ar gyfer pob un o'u hysgolion

	Y nifer o swyddogion sy'n ymwneud â chlercio		Y nifer cyfartalog o gyrff llywodraethol a glerciwyd gan bob aelod o'r Tîm Cefnogi Llywodraethwyr a swyddogion eraill
	Aelodau o'r Tîm Cefnogi Llywodraethwyr	Swyddogion AALl eraill	
AALL 1	2	17	2
AALL 2	4	25	2
AALL 3	2	22	2
AALL 4	3	10 (+ 2 rhan-amser)	6

Ffigyrau cyfartalog yw'r rhain ac mae'n debygol bod aelodau o'r timau Cefnogi Llywodraethwyr yn clercio yn fwy na'r cyffredin, tra bydd swyddogion eraill yn clercio yn llai na'r cyffredin. Yn un o'r AALlau a restrir yn Nhabl 1, er enghraifft, mae swyddogion nad ydynt yn aelodau o'r Tîm Cefnogi Llywodraethwyr yn clercio 6 o gyfarfodydd ar gyfartaledd, tra bod Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr yn clercio 11 neu 12, felly mae'n amlwg bod y rhan fwyaf o glercio corff llywodraethol yn dal i gael ei wneud gan staff Cefnogi Llywodraethwr.

Mae'n arferol hefyd yn yr awdurdodau hyn fod clercod unigol yn gwasanaethu ysgolion yn y sector cynradd ac uwchradd, ac nid ydynt yn arbenigo yn y naill na'r llall.

3.1.2 Personél yn yr 11 AALl sy'n darparu clercio ar gyfer rhai ysgolion yn unig

Mae'r grŵp hwn yn cynnwys ystod o ddarpariaethau gwasanaeth clercio. Mae'r ddarpariaeth yn amrywio yn sylweddol, o un AALl sy'n clercio mewn 4 ysgol gynradd yn unig, i un arall sy'n clercio yn yr holl ysgolion ac eithrio dwy ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir a dwy ysgol gyfun wirfoddol a gynorthwyir.

Gan nad oedd llawer yn gwneud defnydd o'r gwasanaeth, roedd gan yr 11 AALl yn y categori hwn lai o ysgolion i glercio drostynt nac yn yr AALlau hynny sy'n darparu gwasanaeth clercio i'r holl ysgolion. Yn 3 allan o'r 11 AALl mae'r staff yn gallu darparu'r gwasanaeth yn gyfangwbl o fewn eu Tîm Cefnogi Llywodraethwyr. Mae gan y 3 AALl hyn Dimau Cefnogi Llywodraethwyr mwy o ran maint na'r mwyafrif o AALlau Cymru o faint cymharol, ond, er hynny, ar gyfartaledd mae yna fwy o gyrff llywodraethol sy'n cael eu clercio gan Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr yn yr AALlau hyn nac mewn AALlau lle defnyddir swyddogion o'r tu allan i'r Timau Cefnogi Llywodraethwyr. Gweler Tabl 2 a'i gymharu â Thablau 1 a 3.

Tabl 2: Y nifer o gyrff llywodraethol a glerciwyd gan AALlau gan ddefnyddio staff o'r Tîm Cefnogi Llywodraethwyr yn unig

	Nifer o aelodau'r Tîm Cefnogi Llywodraethwyr sy'n ymwneud â chlercio	Nifer cyfartalog o gyrff llywodraethol a glerciwyd gan aelodau o'r TCLl
AALL 5	7	19
AALL 6	5 llawn amser, 3 rhan-amser	14
AALL 7	11	15

Ar y cyfan, mae gan yr 8 AALl sy'n weddill o'r 11 yn y categori hwn lai o swyddogion y tu allan i'r Timau Cefnogi Llywodraethwyr sy'n ymwneud â chyflwyno'r gwasanaeth clercio nag yn y 4 AALl sy'n darparu gwasanaeth clercio ar gyfer eu holl ysgolion (gweler Tabl 1). Adlewyrchir i ba raddau y defnyddir "rhai o'r tu allan" yng nghyfartaledd y nifer o gyrff llywodraethol a glerciwyd gan bob unigolyn. Gweler Tabl 3.

Tabl 3. Nifer cyfartalog o gyrff llywodraethol a glerciwyd gan swyddogion AALl (yn ogystal â staff Cefnogi Llywodraethwyr) mewn AALlau sy'n darparu clercod ar gyfer rhai o'u hysgolion yn unig

	Nifer o swyddogion sy'n ymwneud â chlercio		Nifer cyfartalog o gyrff llywodraethol a glerciwyd gan aelodau o'r Tîm Cefnogi Llywodraethwyr a rhai nad ydynt yn aelodau o'r TCLl
	Aelodau o'r Tîm Cefnogi Llywodraethwyr	Swyddogion AALl eraill	
AALL 8	1	13	5
AALL 9	6	12	8
AALL 10	3	8	8
AALL 11	1	1	4
AALL 12	3	3	6
AALL 13	5	6	6
AALL 14	3	3	3
AALL 15	3	1	3

Mae llawer iawn o amrywiaeth yn y nifer o swyddogion o'r tu allan i'r Timau Cefnogi Llywodraethwyr ar draws yr AALlau hyn. (13 yn AALl 8 ac 1 yn AALlau 11 a 15.) Y rheswm am hyn yw bod nifer gymharol isel o gyrff llywodraethol yn defnyddio gwasanaethau clercio'r AALl mewn rhai AALlau (e.e. AALlau 8, 14 a 15) o'u cymharu ag AALlau eraill lle y gwneir mwy o ddefnydd o wasanaethau clercio'r AALl (e.e. AALlau 8, 9 a 10).

Niferoedd cyfartalog yw'r rhain, ac yn y mwyafrif o'r AALlau, mae aelodau o'r Tîm Cefnogi Llywodraethwyr yn clercio mwy o gyfarfodydd cyrff llywodraethol na Swyddogion AALl eraill. Yn un AALl, er enghraifft, mae aelodau o'r Tîm Cefnogi Llywodraethwyr yn clercio mewn 5 ysgol, ar gyfartaledd, tra bod swyddogion AALl eraill yn clercio mewn 1 neu 2 ysgol.

Ym 4 o'r 8 AALl yn Nhabl 3, lle darparwyd clercio ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, mae clercod unigol yn gweithio yn y sectorau ysgolion cynradd ac uwchradd, ond yn y 4 AALl arall mae elfen o arbenigo ac y mae rhai clercod yn arbenigo naill ai yn y sector cynradd neu uwchradd.

3.1.3 Casgliadau

Mae'r ddarpariaeth clercio ar gyfer cyrff llywodraethol ysgol yn amrywio yn sylweddol ar draws yr AALlau yng Nghymru. Gwelir y gwahaniaeth mwyaf rhwng yr AALlau sy'n darparu gwasanaethau clercio ar gyfer eu holl ysgolion a'r rhai sy'n darparu gwasanaeth ar gyfer rhai yn unig. Fodd bynnag, mae yna amrywiadau mawr yn y categori olaf, gydag un AALl yn darparu gwasanaeth clercio ar gyfer 4 ysgol yn unig (ac fe ddarperir y gwasanaeth hwn yn unig oherwydd bod yr ysgolion yma wedi cael anhawster i ddod o hyd i glerc eu hunain), a'r rhai lle mae'r mwyafrif llethol o'r ysgolion yn derbyn y gwasanaeth gan eu AALl.

Mae'r mwyafrif o AALlau (12 allan o 15) sy'n darparu gwasanaethau clercio ar gyfer ysgolion yn defnyddio swyddogion nad ydynt yn aelodau o'r Timau Cefnogi

Llywodraethwyr (er eu bod yn yr Adran Addysg) wrth ddarparu eu gwasanaeth clercio. Mae hyn yn effeithio ar y nifer o ysgolion sy'n cael eu clercio gan bob unigolyn sy'n ymwneud â'r gwasanaeth, ac y mae'r nifer yn is nag yn yr AALlau hynny lle mae'r Tîm Cefnogi Llywodraethwyr yn rhedeg eu holl wasanaeth clercio. Fodd bynnag, mae llywodraethwyr a Phennaeth wedi mynegi eu pryder ynghylch y nifer o ysgolion sy'n cael eu clercio gan swyddogion AALl unigol, a dweud eu bod yn amgyffred bod hyn yn effeithio ar eu gwasanaeth i gyrff llywodraethol. Sylwodd un Cadeirydd Corff Llywodraethol "weithiau rhaid aros hyd at 6 wythnos cyn derbyn [drafft o'r cofnodion]; mynegodd un arall bryder ynghylch y modd y mae clercod "[yn cynhyrchu] cofnodion stereoteipiedig, gan adrodd cynnwys y cyfarfod yn anghywir"; ac yn olaf, teimlai un Pennaeth "y dylai clercod hefyd fod mewn cysylltiad gyda'r ysgol yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yna gyfathrebu effeithiol."

3.1.4 Argymhellion

Oherwydd pwysigrwydd clercio corff llywodraethol, a'r amser sydd ei angen i ddod i adnabod ysgolion unigol a'u cyrff llywodraethol fel y gellir cyflawni'r gwaith hwn yn y modd mwyaf effeithiol posibl, argymhellir bod AALlau yn cyfyngu ar y nifer o gyrff llywodraethol y dylai swyddogion glercio drostynt. Gallent ddymuno ystyried defnyddio nifer fwy o swyddogion AALl eraill i glercio cyfarfodydd cyrff llywodraethol, neu gyflogi clercod corff llywodraethol ar sail ran-amser.

3.2 MONITRO EFFEITHIOLRWYDD Y CLERCIO

3.2.1 Fel y gwelir yn yr ystadegau yn nhablau 4 a 5 isod, ychydig iawn o fonitro a gwerthuso'r gwaith a wneir gan AALlau sy'n darparu gwasanaeth clercio i'w hysgolion. Nid oes gan chwech o'r 15 AALl sy'n darparu'r gwasanaeth hwn unrhyw ddulliau ffurfiol o fonitro eu darpariaeth, ac o'r 9 AALl sy'n ymgymryd â monitro ffurfiol, mae 4 yn defnyddio un dull yn unig. Mae'n syndod braidd i ddarganfod fod ffurflenni gwerthuso, sy'n gymharol rhad i'w cynhyrchu ac yn hawdd i'w gweinyddu, yn cael eu defnyddio gan 5 yn unig o'r 9 awdurdod.

Tabl 4. Gwahanol Ddulliau a ddefnyddir gan y 15 AALl sy'n darparu gwasanaeth clercio i ysgolion er mwyn monitro a gwerthuso ansawdd eu gwasanaeth clercio.

Dull o Fonitro a Gwerthuso	Nifer o AALlau sy'n defnyddio'r dull hwn:	
	sy'n clercio eu holl ysgolion	sy'n clercio rhai ysgolion yn unig
Dim monitro yn cael ei wneud	1	5
Ffurflenni gwerthuso a gwblheir yn rheolaidd gan gyrff llywodraethol	1	4
Cyfarfodydd rhwng swyddogion AALl a Chadeiryddion y Llywodraethwyr	2	3
Arsylwi ar gyfarfodydd gan swyddogion AALl	1	2
Monitro'r cofnodion	1	1

Tabl 5. Nifer o ddulliau ffurfiol a ddefnyddir gan AALlau i fonitro ansawdd eu gwasanaethau clercio

Nifer o ddulliau a ddefnyddir	Y nifer o AALlau:	
	sy'n clercio eu holl ysgolion	sy'n clercio rhai ysgolion yn unig
Dim monitro yn cael ei wneud	1	5
defnyddir 1 dull o fonitro	2	3
defnyddir 2 ddull o fonitro		2
defnyddir 3 dull o fonitro	1	1

3.2.2 Casgliad

Ond ychydig iawn o fonitro ansawdd gwasanaethau clercio a wneir gan yr AALlau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn, ac i raddau llai, y nifer o ddulliau a ddefnyddir. Gall hyn ei gwneud yn anodd iawn i AALlau wella eu gwasanaeth. Gallai trefniadau monitro mwy ffurfiol ac aml hefyd helpu AALlau i adnabod problemau clercio tebygol ac efallai i ymyrryd yn gynnar cyn i'r broblem waethygu.

Er bod Penaethiaid a Llywodraethwyr yn rhoi adroddiad ffafriol o'r gwasanaeth clercio y maent yn ei dderbyn gan eu AALlau - "mae clerc y corff llywodraethol yn foddhaol dros ben" (llywodraethwr), "mae'r gwasanaeth a'r berthynas rhwng y clerc a'r corff llywodraethol yn rhagorol" (llywodraethwr), "mae ein clerc i'r llywodraethwyr yn arbennig o dda" (Pennaeth) - gallai fod yna achosion pryder a allai gael eu datrys pe baent yn cael eu hadnabod drwy fonitro'r gwasanaeth clercio. Amlygwyd un achos pryder gan nifer o lywodraethwyr a Phenaethiaid, sef y cwestiwn o amhleidioldeb clercod AALl. "Pan fod gwrthdaro rhwng corff llywodraethol a'r AALl, mae'r clerc yn ei gael ei hun mewn sefyllfa anodd ac, yn amlwg, byddant yn ymlynu wrth eu cyflogwr" (llywodraethwr). "Rhaid eu bod yn cael eu rhwygo rhwng y ddwy ochr ar rai materion" (llywodraethwr). "Ychwanegir eitemau AALl eitemau at yr agenda heb ymgynghori â'r Cadeirydd" (Pennaeth). " Gallai fod yna anfantais, sef na fydd barn y clerc yn amhleidiol." (Pennaeth). Fodd bynnag, mae'r atebydd olaf hefyd yn cyfeirio at y manteision pan fod yr AALau yn darparu gwasanaeth clercio: "mae'n ddefnyddiol er mwyn egluro gweithdrefnau (ac) wrth chwilio am eglurhad ynghylch pethau ... Maent yn ymwybodol o'r problemau cyffredin ac yn eu cyflwyno i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau."

Byddai system fonitro effeithiol wedi adnabod y canfyddiadau hyn o'r gwasanaeth clercio ac yna gellid bod wedi cymryd camau i adfer y sefyllfa.

3.2.3 Argymhelliad

Er mwyn i'r AALlau fedru asesu boddhad llywodraethwr gyda'u gwasanaeth clercio, argymhellir bod pob AALl sy'n darparu gwasanaethau clercio i'w hysgolion yn defnyddio gweithdrefnau monitro amrywiol, rheolaidd ac effeithiol.

3.3 HYFFORDDIANT

3.3.1 Mae'r 4 AALl sy'n darparu gwasanaeth clercio ar gyfer eu holl ysgolion yn cynnal eu rhaglenni hyfforddi eu hunain, ac o'r 11 AALl sy'n darparu gwasanaeth clercio i rai o'u hysgolion, mae 8 ohonynt hefyd yn cynnal eu rhaglenni hyfforddi eu hunain. Gweler Tabl 6.

Tabl 6. Darpariaeth hyfforddiant AALlau ar i glercod

AALlau sy'n darparu hyfforddiant i glercod	12
AALlau nad ydynt yn darparu hyfforddiant, ond sydd yn annog clercod i fynychu cyrsiau hyfforddi a gynhelir gan ddarparwyr eraill	2
AALlau nad ydynt yn gweld bod yna broblem yma	1

Mae presenoldeb ar gyrsiau hyfforddi, fodd bynnag, yn amrywio ymhlith AALlau yng Nghymru. Gweler Tabl 7.

Tabl 7. Presenoldeb gan aelodau o Dîm Cefnogi Llywodraethwyr yr AALl ar gyrsiau hyfforddi clercod ffurfiol*

AALlau lle mae aelodau o'r Tîm Cefnogi Llywodraethwyr wedi mynychu sesiynau hyfforddi	9
AALlau lle nad yw aelodau o'r Tîm Cefnogi Llywodraethwyr wedi mynychu sesiynau hyfforddi	5

* Ni chafwyd ymateb gan 1 AALl yn y maes hwn.

Mae'n ymddangos bod nifer fawr o aelodau o Dimau Cefnogi Llywodraethwyr AALl heb dderbyn hyfforddiant ond, mewn gwirionedd, er bod y presenoldeb yn y sesiynau hyfforddi ffurfiol yn wael, mae'r mwyafrif o'r AALlau yn cynnal "cyfarfodydd trafod i glercod" lle mae clercod y cyrff llywodraethol yn cyfarfod er mwyn cael eu diweddaru ar newidiadau cyfreithiol a hefyd er mwyn trafod meysydd o bryder cyffredin. Yn y cyfarfodydd hyn mae hyfforddiant anffurfiol yn digwydd.

Mater sydd efallai yn fwy o achos pryder yw ansawdd yr hyfforddiant. Mae un atebydd AALl yn dweud nad yw'r hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn gan nad oes yna wahaniaethiad ac mae'n awgrymu y dylai'r hyfforddiant gael ei "anelu yn benodol at wahanol lefelau" sy'n cyfateb i'r gwahanol lefelau o arbenigedd mewn clercio ymysg staff y Tîm Cefnogi Llywodraethwyr. Mae dau lywodraethwr hefyd yn mynegi eu pryderon ynghylch ansawdd yr hyfforddiant. Dywedodd un ohonynt ".... yn ôl (rhai) clercod, nid ydynt yn mynychu (hyfforddiant) oherwydd safon yr hyfforddiant a gynigir". Mae un arall yn sylwi ar arbenigedd clerc corff llywodraethol "Rwy'n ofni mod innau - ar nifer o achlysuron - wedi gorfod amau'r arweiniad gweithdrefnol." Barn un Pennaeth Uwchradd, sydd yn amlwg yn ymwybodol o bwysigrwydd clercio i lywodraethu effeithiol, yw bod "gwir angen rhaglen hyfforddi clercod gynhwysfawr gan na ddylid bychanu rolau eu (clercod) mewn perthynas â (llywodraethu da)."

Cefnogir y farn hon gan atebydd AALl sy'n sylwi “byddai pecyn hyfforddi (cenedlaethol) o'r defnydd mwyaf.”

3.3.2 Casgliadau

Er ei bod yn amlwg fod AALlau yn ymroddedig i hyfforddiant, ffurfiol ac anffurfiol, ar gyfer clercod cyrff llywodraethol, mae yna beth pryder ynghylch y lefelau presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi ffurfiol. Mae yna rywfaint o bryder hefyd ynghlych ansawdd yr hyfforddiant.

3.3.3 Argymhellion

Er mwyn sicrhau bod clercod corff llywodraethol ymhob AALl yng Nghymru yn cael mynediad i hyfforddiant o ansawdd uchel wedi'i wahaniaethiadu, argymhellir bod rhaglen hyfforddi genedlaethol ar gyfer clercod corff llywodraethol yn cael ei sefydlu.

Er mwyn diwallu anghenion clercod profiadol a dibrofiad, dylid cynnig y rhaglen hyfforddi ar wahanol lefelau. Dylai Lefel Un anelu at glercod newydd a chanolbwyntio ar eu dyletswyddau ysgrifenyddol, tra dylai Lefel Dau drafod y rôl ymgynghorol y gallai clercod ddarparu i gyrff llywodraethol yn ogystal. Os bydd y ddwy rôl hyn un yn cael eu cyflawni i lefel uchel gan glercod, bydd y cyrff llywodraethol mewn sefyllfa gref i wneud cyfraniad sylweddol i wella ysgolion.

Mae'n hanfodol bod clercod corff llywodraethol yn cael eu diweddaru yn rheolaidd ar y newidiadau i'r gofynion cyfreithiol, a'u bod hefyd yn cael cyfle i drafod materion o bryder cyffredin, e.e. gosod agendau, dulliau o gymryd cofnodion a chadw cofnodion. Argymhellir felly fod yr AALlau yn parhau â'r arfer o gynnal “cyfarfodydd trafod i glercod’ yn rheolaidd, yn ddelfrydol, unwaith bob tymor, fel y gellir trafod y materion hyn.

4 AALlau NAD YDYNT YN DARPARU GWASANAETH CLERCIO I GYRFF LLYWODRAETHOL YSGOL, NEU LLE NA DDERBYNNIR EU CYNNIG O DDARPARIAETH

Mae'r casgliadau a'r argymhellion yn yr adran hon yn berthnasol i'r AALlau nad ydynt yn darparu gwasanaeth clercio i unrhyw un o'u hysgolion (7 AALl) a'r AALlau lle na dderbyniwyd eu cynnig i ddarparu clercio gan nifer o'u hysgolion (11 AALl).

4.1 PERSONÉL

4.1.1 Ynghylch rhoi disgrifiadau swydd clercod i gyrff llywodraethol, mae'n ymddangos fod yna wahaniaeth amlwg rhwng yr AALlau nad ydynt yn darparu gwasanaethau clercio ar gyfer eu hysgolion, a rhai sy'n gwneud felly. Mae 6 o'r 7 AALl nad ydynt yn darparu gwasanaeth clercio yn darparu disgrifiad swydd ar gyfer clercod, ac y mae pob un o'r 7 AALl yn y categori hwn yn rhoi canllawiau cyflog ar gyfer clercod i'w cyrff llywodraethol. Fodd bynnag, o'r 11 AALl sy'n darparu gwasanaeth clercio, 3 yn unig sy'n rhoi disgrifiadau swydd clercod i gyrff llywodraethol ysgol nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth clercio, a 5 yn unig 5 o'r AALlau hyn sy'n darparu canllawiau cyflog i'w cyrff llywodraethol nad ydynt yn defnyddio gwasanaeth clercio'r AALl.

Tabl 8: Darpariaeth y gwasanaethau a gynigir gan AALlau i ysgolion nad ydynt yn defnyddio gwasanaeth clercio'r AALl

	AALlau nad ydynt yn darparu clercio i ysgolion (7)	AALlau sy'n cynnig darparu clercio ond a wrthodir gan rai ysgolion (11)
Darpariaeth o ddisgrifiadau swydd clercod	6	3
Darpariaeth o ganllawiau cyflog ar gyfer clercod	7	5

4.1.2 Casgliadau

Er bod yr AALlau nad ydynt yn darparu gwasanaethau clercio i'r cyrff llywodraethol bron bob un yn rhoi disgrifiadau swydd a chanllawiau cyflog clercod i gyrff llywodraethol, nid yw hyn mor gyffredinol o bell ffordd ymhlith yr AALlau sy'n darparu gwasanaeth clercio. Byddai disgrifiad swydd sy'n gyffredin i'r holl glercod corff llywodraethol yn helpu i sicrhau lefel sylfaenol o leiaf o wasanaeth clercio i bob corff llywodraethol, tra byddai darparu canllawiau cyflog ar gyfer clercod yn helpu i sicrhau tâl safonol i glercod am eu gwaith.

4.1.3 Argymhelliad

Dylai pob AALl ddarparu disgrifiadau swydd ar gyfer clercod corff llywodraethol a chanllawiau cyflog clercod i'r ysgolion hynny nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau clercio'r AALl.

4.2 MONITRO EFFEITHIOLRWYDD Y CLERCIO

4.2.1 Unwaith eto, mae'n ymddangos bod yna wahaniaeth yn y nifer o AALlau sy'n monitro clercio yn weithredol, rhwng yr AALlau hynny nad ydynt yn darparu unrhyw wasanaeth clercio a'r rhai sy'n darparu gwasanaeth clercio ar gyfer rhai o'u hysgolion (cymerir tablau 9(a) a 9(b)). Mae'r grŵp cyntaf yn ymddangos yn fwy ymroddedig i fonitro. Fodd bynnag, yn achos y ddau grŵp, nid yw'r dull o fonitro yn ddim mwy na darllen cofnodion corff llywodraethol a darparu, fel y'i disgrifir gan un AALl, "cyngor ac arweiniad lle bo'n briodol". Yn ogystal ag archwilio cofnodion corff llywodraethol, mae un AALl hefyd yn trafod materion clercio gyda Chadeiryddion y llywodraethwyr; mae AALl arall yn cynnal archwiliad blynyddol o safbwyntiau llywodraethwyr.

Tabl 9 (a): AALlau (7) nad ydynt yn darparu gwasanaethau clercio i unrhyw ysgol

	Y nifer o AALlau
AALlau sy'n monitro yn weithredol waith clercod corff llywodraethol, e.e. yn monitro ansawdd cofnodion, ffurflenni gwerthuso	5
AALlau sy'n rhoi canllawiau ar fonitro gwaith clercod corff llywodraethol i'w hysgolion	1

Tabl 9(b): AALlau (11) sy'n darparu gwasanaeth clercio ond lle mae rhai o'u hysgolion heb ddefnyddio'r gwasanaeth

	Y nifer o AALlau
AALlau sy'n monitro gwaith clercod corff llywodraethol yn weithredol, e.e. monitro ansawdd y cofnodion, ffurflenni gwerthuso	5
AALlau sy'n rhoi canllawiau ar fonitro gwaith clercod corff llywodraethol i'w hysgolion	0

4.2.2 Casgliad

Mae monitro clercio corff llywodraethol na ddarparwyd gan AALlau yn brin iawn a, chan amlaf, mae'n cynnwys archwilio cofnodion cyrff llywodraethol yn unig gan swyddogion AALl. Yn yr un modd, mae'r ymchwil yn amlygu mai ychydig iawn o gyngor a roddir i gyrff llywodraethol ar sut i weithredu eu monitro eu hunain.

4.2.3 Argymhellion

Dylai'r AALlau fabwysiadu dull mwy trylwyr o fonitro clercio. Argymhellir cynhyrchu set o weithdrefnau monitro cenedlaethol i gynorthwyo AALlau i gyflawni'r swyddogaeth hon. Gallai hyn gynnwys fformat ar gyfer ffurflenni gwerthuso fel y gall cyrff llywodraethol roi eu sylwadau ar ansawdd clercio.

4.3 HYFFORDDIANT

4.3.1 O'r 7 AALl nad ydynt yn darparu gwasanaeth clercio ar gyfer unrhyw un o'u hysgolion, mae 6 yn cynnal cyrsiau hyfforddi clercod, ac y mae 1 yn hysbysu cyrff llywodraethol a'u clercod am hyfforddiant sydd ar gael gan ddarparwyr eraill. Mae'r fath ddarparwyr yn cynnwys AALlau eraill ac, yn fwy cyffredin, darparwyr preifat.

O'r 11 AALl sy'n darparu gwasanaeth clercio ar gyfer rhai o'u hysgolion, mae 9 yn cynnal cyrsiau hyfforddi clercod, tra bod 2 yn hysbysu cyrff llywodraethol a'u clercod am yr hyfforddiant sydd ar gael gan ddarparwyr eraill.

4.3.2 Casgliadau

Mae'n amlwg bod yr AALlau nad ydynt yn darparu gwasanaeth clercio ar gyfer eu cyrff llywodraethol, a'r rhai sy'n darparu gwasanaeth clercio ar gyfer rhai o'u hysgolion yn ystyried bod hyfforddiant yn fater pwysig ac maent yn ymroddedig iddo.

4.3.3 Argymhelliad

Argymhellir y dylai AALlau barhau naill ai i ddarparu, neu gynnal eu cefnogaeth ar gyfer, hyfforddiant ar gyfer clercod corff llywodraethol a ddarperir i gyrff llywodraethol fel rhan o wasanaeth clercio AALl. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb, a'r cyfle i ddiwygio yng ngoleuni amgylchiadau sy'n newid, byddai'n llawer mwy buddiol pe bae pecyn hyfforddi cenedlaethol i glercod yn cael ei gynhyrchu. Dylid cynnig hwn ar ddau lefel. Dylai Lefel 1 gyflwyno rôl ysgrifenyddol y clerc a chynnwys pynciau megis yr agenda a pharatoi ar gyfer, a threfnu cyfarfodydd, cymryd cofnodion a chadw gwybodaeth. Dylai Lefel 2 gyflwyno rôl ymgynghorol y clerc a chynnwys pynciau megis gweithdrefnau cyfarfodydd, dyddiadau cau cyfarfodydd, gohebiaeth ar ran y corff llywodraethol, terfynau dylanwad y clerc

5 CRYNODEB O'R CASGLIADAU

5.1 Mae yna ddiffyg cysondeb yn y dull o ddarparu ac yng nghynnwys hyfforddiant clercod ledled Cymru.

5.2 Er fod y mwyafrif o AALlau yn amlwg yn ymroddedig i hyfforddiant ar gyfer clercod, mae ansawdd y sesiynau hyfforddi yn amrywio.

5.3 Mae presenoldeb ar gyrsiau hyfforddi clercod yn amrywio rhwng yr AALlau yng Nghymru.

5.4 Mae'r mwyafrif o'r AALlau yn cynnal “cyfarfodydd trafod i glercod ” lle mae diweddaru ar newidiadau addysgol a gofynion cyfreithiol a chyfnewid syniadau ac arferion yn digwydd.

5.5 Nid yw pob AALl yn darparu disgrifiadau swydd na chanllawiau cyflog i ysgolion, ac os darperir y rhain, maent yn amrywio o AALl i AALl.

6 CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

6.1 Byddai rhaglen hyfforddi wahaniaethol genedlaethol, yn sicrhau triniaeth gyson a chydlynol ar gyfer yr holl glercod corff llywodraethol. Dylid darparu'r hyfforddiant ar ddau lefel. Dylai Lefel 1 gyflwyno rôl ysgrifenyddol y clerc a chynnwys pynciau megis yr agenda a pharatoi ar gyfer a threfnu cyfarfodydd, cymryd cofnodion a chadw gwybodaeth. Dylai Lefel 2 gyflwyno rolau ysgrifenyddol ac ymgynghorol y clerc a chynnwys pynciau megis gweithdrefnau cyfarfodydd, dyddiadau cau cyfarfodydd, gohebiaeth ar ran y corff llywodraethol, terfynau dylanwad y clerc.

6.2 Dylid parhau i gynnal "cyfarfodydd trafod i glercod " yn yr AALlau hynny sy'n darparu'r gwasanaeth hwn a dylid eu cyflwyno yn yr AALlau nad ydynt yn gwneud eisoes. Ymhellach, argymhellir bod y gwasanaeth yn cael ei gynnig i'r holl glercod, p'un ai mae'r AALlau yn eu darparu i ysgolion ai peidio. Dylai'r pwyslais yn y "cyfarfodydd trafod i glercod " fod ar ddiweddaru'r rhai sy'n bresennol ar newidiadau addysgol a chyfreithiol a chyfnewid arferion da.

6.3 Dylai pob AALl ddarparu disgrifiadau swydd clercod i bob ysgol, heb ystyried pwy sy'n darparu clerc i'r corff llywodraethol. Yn yr un modd, dylai AALlau roi canllawiau cyflog ar gyfer clercod i gyrff llywodraethol nad ydynt, am ba reswm bynnag, yn defnyddio'r gwasanaeth clercio a ddarperir gan yr AALl. Darperir disgrifiad swydd generig awgrymedig yn Atodiad A sy'n cydnabod y gwahanol lefelau o gefnogaeth y gall clerc eu darparu ar gyfer corff llywodraethol.

6.4 Dylai AALlau fabwysiadu gweithdrefnau ffurfiol i sicrhau bod gwaith clercod corff llywodraethol yn cael ei fonitro yn effeithiol naill ai gan yr AALl neu gan gyrff llywodraethol unigol. Argymhellir bod set o weithdrefnau monitro yn cael eu cynhyrchu ar raddfa genedlaethol er mwyn cynorthwyo AALlau a chyrff llywodraethol unigol wrth gyflawni'r swyddogaeth hon.

6.5 Dylai'r AALlau hynny sy'n darparu gwasanaeth clercio gyfyngu ar y nifer o gyrff llywodraethol sy'n cael eu clercio gan bob swyddog fel y gall y clerc fedru ymgyfarwyddo â, a deall yn well, anghenion arbennig "eu" hysgolion hwy. Gellir cyflawni hyn drwy gynyddu'r nifer o swyddogion AALl sy'n clercio cyrff llywodraethol ac/neu gyflogi clercod corff llywodraethol ar sail ran-amser.

Canolfan Rhagoriaeth Cymru ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil

HYFFORDDI CLERCIAID CYRFF LLYWODRAETHU

YR AWDURDOD ADDYSG LLEOL

Enw'r Awdurdod Addysg Lleol ……

1 Faint o ysgolion Cynradd ac Uwchradd sydd yn eich AALL?

Cynradd …… Uwchradd ……

2 Sawl aelod o staff sydd yn Uned Cefnogi Llywodraethwyr eich AALl?

Llawn amser ……. Rhan amser ……...

3 Sawl aelod o Uned Cefnogi Llywodraethwyr eich AALl:

(a) Sydd heb unrhyw gyfrifoldebau eraill ……..

(b) Sydd â chyfrifoldebau eraill ond eu prif gyfrifoldeb yw cefnogi llywodraethwyr ……..

(c) Sydd â pheth cyfrifoldeb am gefnogi llywodraethwyr ond mae eu prif gyfrifoldeb mewn man arall ……

4 A yw eich AALl yn rhoi gwasanaeth clercio i gyrff llywodraethu eich ysgolion?

(a) Ydy, i bob ysgol ☐ **(atebwch gwestiynau 5 i 16)**

(b) I ddim un ysgol ☐ **(atebwch gwestiynau 17 i 24)**

(c) I rai ysgolion yn unig ☐ **(atebwch gwestiynau 5 i 24 a nodwch isod y rhesymau dros gynnig gwasanaeth clercio i rai ysgolion yn unig)**

……

……

Atebwch gwestiynau 5 i 16 os ydych wedi ticio cwestiwn 4(a) neu 4(c)

PERSONÉL

5 Ydy'r clercio'n cael ei roi gan aelodau o'ch Tîm Cefnogi Llywodraethwyr yn unig?

YDY ☐ NAC YDY ☐

6 Os ateboch chi NAC YDY i gwestiwn 5, faint o swyddogion, yn ychwanegol at eich Tîm Cefnogi Llywodraethwyr, sy'n clercio cyfarfodydd cyrff llywodraethu?

……

7 Ar gyfartaledd, faint o gyrff llywodraethu y mae pob un o'ch swyddogion yn eu clercio?

……

8 A ydy'r clerciaid yn arbenigo mewn un sector, neu a ydynt yn clercio cyrff llywodraethu ysgolion cynradd ac uwchradd?

(a) Cynradd yn unig ☐
(b) Uwchradd yn unig ☐
(c) Y ddau sector ☐
(ch) Mae rhai clerciaid yn arbenigo mewn un maes ac eraill yn gwasanaethu'r ddau ☐

GWASANAETHAU

9 A ydych yn clercio pwyllgorau llywodraethwyr fel rhan o'r gwasanaeth clercio cyffredinol rydych yn ei roi?

(a) YDYN, ar gyfer pob pwyllgor heb godi tâl ychwanegol ☐
(b) YDYN, ond ar gyfer rhai pwyllgorau'n unig (e.e. eithrio disgyblion) heb godi tâl ychwanegol ☐
(c) YDYN, ar gyfer pob pwyllgor ond gan godi tâl ychwanegol ☐
(ch) YDYN, ond ar gyfer rhai pwyllgorau'n unig gan godi tâl ychwanegol ☐
(d) NAC YDYN ☐

10 Yn rhan o'r trefniadau clercio sydd gennych chi â'ch ysgolion, a ydych chi'n rhoi unrhyw wasanaethau eraill?

YDYN ☐ NAC YDYN ☐

11 Os ateboch chi YDYN i gwestiwn 10, rhestrwch y gwasanethau eraill rydych yn eu rhoi'n rhan o'ch trefniadau clercio:

……

……

……

MONITRO

12 A oes gan eich AALl unrhyw ddulliau ffurfiol o fonitro ansawdd y gwasanaeth clercio rydych yn ei roi i ysgolion?

(a) Dim ☐
(b) Ffurflenni gwerthuso'n cael eu llenwi'n gyson gan gyrff llywodraethu ☐
(c) Cyfarfod(ydd) rhwng swyddogion AALl a Chadeiryddion cyrff llywodraethu ☐
(ch) Swyddogion AALl yn arsylwi ar gyfarfodydd ☐
(d) Arall (nodwch os gwelwch yn dda) ☐

……..

HYFFORDDIANT AR GYFER CLERCIAID

13 A yw eich AALl yn cynnig hyfforddiant i swyddogion sy'n clercio cyrff llywodraethu? (ticiwch un)

(a) Mae'r AALl yn rhoi hyfforddiant i glerciaid ☐
(b) Nid yw'r AALl yn rhoi hyfforddiant i glerciaid, ond <u>yn ôl yr arfer</u> mae'n cofrestru clerciaid ar raglenni hyfforddi y mae darparwyr eraill yn eu cynnig ☐
(c) Nid yw'r AALl yn rhoi hyfforddiant i glerciaid, ond mae'n annog clerciaid i fynychu cyrsiau hyfforddi ☐
(ch) Nid yw'r AALl yn rhoi pwys ar hyn ☐

14 A ydych wedi mynychu sesiwn hyfforddi i glerciaid erioed?

(a) Erioed ☐ (c) Fwy nag unwaith ☐
(b) Unwaith ☐

15 A oes unrhyw un o Uned Cefnogi Llywodraethwyr eich AALl wedi mynychu sesiwn hyfforddi i glerciaid?

OES ☐ NAC OES ☐

16 Os ateboch chi OES i gwestiwn 15, nodwch os gwelwch yn dda sawl aelod o staff sydd wedi mynychu cyrsiau:

……

Atebwch gwestiynau 17 i 24 os ticiwyd 4(b) neu 4 (c)

PERSONÉL

17 A ydy eich AALl yn rhoi disgrifiad(au) swyddi delfrydol i glerciaid eich ysgolion?

YDY ☐ NAC YDY ☐

18 A ydy eich AALl yn rhoi cyfarwyddyd i'ch ysgolion o ran cymwysterau proffesiynol dymunol ar gyfer clerciaid cyrff llywodraethu?

YDY ☐ NAC YDY ☐

19 A ydy eich AALl yn rhoi canllawiau cyflogau ar gyfer clerciaid cyrff llywodraethu i'ch ysgolion?

YDY ☐ NAC YDY ☐

MONITRO

20 A ydy eich AALl yn ymwneud yn ddyfal â monitro gwaith clerciaid cyrff llywodraethu?

YDY ☐ NAC YDY ☐

21 Os ateboch chi YDY i gwestiwn 20, nodwch yn fyr sut mae'n cyflawni'r rôl yma:

……

……

22 Os ateboch chi NAC YDY i gwestiwn 20, a ydy eich AALl yn rhoi canllawiau i'ch ysgolion ynghylch monitro gwaith clerciaid cyrff llywodraethu?

YDY ☐ NAC YDY ☐

HYFFORDDIANT

23 A ydy eich AALl yn rhoi hyfforddiant i glerciaid cyrff llywodraethu? (ticiwch un)

(a) Mae'r AALl yn rhoi hyfforddiant i glerciaid ☐

(b) Nid yw'r AALl yn rhoi hyfforddiant i glerciaid, ond mae'n rhoi gwybod i ysgolion am hyfforddiant sydd ar gael gan ddarparwyr eraill ☐

(c) Nid yw'r AALl yn rhoi pwys ar hyn ☐

24 Os yw eich AALl yn rhoi hyfforddiant i glerciaid, a ydy:

(a) Pob clerc ysgol wedi mynychu o leiaf 1 sesiwn hyfforddi ☐

(b) 70% - 99% wedi mynychu o leiaf 1 sesiwn hyfforddi ☐

(c) 40% - 69% wedi mynychu o leiaf 1 sesiwn hyfforddi ☐

(ch) 10% - 39% wedi mynychu o leiaf 1 sesiwn hyfforddi ☐

(d) 1% - 9% wedi mynychu o leiaf 1 sesiwn hyfforddi ☐

CYFFREDINOL

Byddem yn falch o dderbyn unrhyw sylwadau pellach y carech eu gwneud ynghylch hyfforddiant i glerciaid cyrff llywodraethu:

……

……

……

……

……

Diolch am eich cymorth yn llenwi'r holiadur hwn. A fyddech cystal ag anfon eich ffurflen wedi'i llenwi yn yr amlen barod amgaeëdig erbyn **18 Rhagfyr 2003** at:

Steve Gullick, Cyfarwyddwr Prosiect
Canolfan Rhagoriaeth Cymru ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil, Adran Addysg,
Prifysgol Cymru Abertawe, Hendrefoelan, ABERTAWE SA2 7NB

Rhif ffôn: 01792 518609 / 518610 E-bost:
S.E.Gullick@swansea.ac.uk
Fax: 01792 518616

DISGRIFIAD SWYDD:
CLERC Y CORFF LLYWODRAETHOL

Lefel 1 (Ysgrifenyddol)

1 O dan arweiniad y Cadeirydd, paratoi'r agenda ar gyfer cyfarfodydd cyrff llywodraethol.

2 Dosbarthu rhybudd ysgrifenedig o gyfarfodydd llywodraethwyr, ac unrhyw bapurau ategol (gan gynnwys cofnodion y cyfarfod blaenorol) i aelodau'r corff llywodraethol, y Pennaeth (os nad ydy ef/hi yn llywodraethwr) ac, yn achos ysgolion a gynorthwyir ac a reolir gan y Sir, y Cyfarwyddwr Addysg, o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod.

3 Cynhyrchu cofnodion cywir o'r cyfarfodydd cyrff llywodraethol o fewn y nifer o ddiwrnodau a gytunwyd ar ôl y cyfarfod.

4 Sicrhau bod pob llywodraethwr sy'n bresennol yn y cyfarfodydd yn llofnodi'r llyfr presenoldeb a bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn cael eu llofnodi fel cofnod gwir a theg gan y Cadeirydd.

5 Trefnu bod cofnodion y corff llywodraethol a gwybodaeth berthnasol arall yn cael eu cadw'n ddiogel.

6 Cadw cofnod o fuddiannau busnes yr holl lywodraethwyr yn yr ysgol.

7 Cadw cofnod o'r canlynol:

- Dyddiadau cyfarfodydd cyrff llywodraethol os ydy'r rhain wedi'u cytuno o flaen llaw.
- Enwau, cyfeiriadau, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost y llywodraethwyr
- Cofnod o bresenoldeb llywodraethwyr mewn cyfarfodydd
- Rhestr o swyddi gweigion llywodraethwr
- Categorïau o lywodraethwr a chyfnodau yn y swydd
- Gohebiaeth y corff llywodraethol
- Adroddiadau blynyddol y llywodraethwyr i rieni
- Aelodaeth pwyllgorau cyrff llywodraethu
- Cylch gorchwyl pwyllgorau'r cyrff llywodraethol
- Cofnodion cyfarfodydd pwyllgor
- Aelodaeth o unrhyw weithgorau

8 Cynhyrchu gohebiaeth mewn drafft ar gyfer y corff llywodraethol os gofynnir amdano.

9 Yng nghyfarfod cyntaf y corff llywodraethol yn y flwyddyn academaidd, Cadeirio'r cyfarfod hyd nes i'r Cadeirydd newydd gael ei ethol.

10 Trefnu etholiad Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y corff llywodraethol yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn academaidd.

11 Rhoi gwybod i'r AALl am unrhyw newidiadau i'r corff llywodraethol.

Lefel 2: Ymgynghorol

12 Cynghori'r Cadeirydd a'r corff llywodraethol ar weithdrefnau cyfarfodydd.

13 Cynghori'r Cadeirydd ar faterion megis presenoldeb llywodraethwyr mewn cyfarfodydd, dyddiadau cau cyfarfodydd, eitemau ar gyfer yr adroddiad blynyddol i rieni, sefydlu pwyllgorau statudol corff llywodraethol, ayb.

14 Sefydlu rhwydwaith o gysylltiadau, e.e. Timau Cefnogi Llywodraethwyr AALlau, gwahanol linellau cymorth corff llywodraethol ayb a chael hyd i gyfeiriadau megis "Canllaw ar y Gyfraith i Lywodraethwyr" er mwyn sicrhau bod gweithgareddau corff llywodraethol yn effeithiol ac o fewn y Gyfraith.

15 Ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd i ddiweddaru sgiliau a gwybodaeth, yn enwedig o reoliadau a deddfau llywodraeth sy'n effeithio ar lywodraethu ysgol.

Nid yw'r disgrifiad swydd yn nodi'r nifer o gyfarfodydd cyrff llywodraethol y dylai clerc fod yn bresennol ynddynt gan y gall hyn amrywio o AALl i AALl neu o ysgol i ysgol.